Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Pobl Bach Nurseries Ltd (Johnstown)**

**20 Pondside**
**Tre-ioan**
**Caerfyrddin**
**SA31 3HU**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

17/05/2023

## About Pobl Bach Nurseries Ltd (Johnstown)

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br><br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Pobl Bach Nurseries Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 51 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nodi â Llaw]<br>Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |


***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Crynodeb


Roedd hwn yn arolygiad â phwyslais penodol, ac ar yr achlysur hwn, ni wnaethom ystyried themâu llesiant, gofal a datblygiad, yr amgylchedd ac arweinyddiaeth a rheolaeth yn llawn

Caiff y plant rai cyfleoedd i wneud dewisiadau a phenderfyniadau drostynt eu hunain. Caiff eu diddordebau a'u barnau eu cydnabod yn gyffredinol, ac maent yn dechrau meithrin hoffter ac ymlyniad. Mae'r rhan fwyaf o'r plant wedi setlo ac yn cael rhai cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth, gan eu galluogi i wneud rhai pethau drostynt eu hunain.

Mae nifer fawr o'r aelodau newydd o staff wedi cael eu cyflogi'n ddiweddar. Maent yn datblygu eu dealltwriaeth ac yn gweithio tuag at roi polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad ar waith. Maent yn ymateb i safbwyntiau'r plant, yn gwrando arnynt ac yn eu parchu. Mae'r rhyngweithio rhwng y staff a'r plant yn gadarnhaol ar y cyfan gan ddangos caredigrwydd. Nid yw gwybodaeth y staff am weithdrefnau diogelu yn gadarn. Nid yw'r staff bob amser yn dilyn yr arferion hylendid cywir a nid yw'r bwyd a ddarperir yn addas bob amser. Nid yw anghenion unigol y plant yn cael eu bodloni bob amser.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad gan amlaf yn cydymffurfio â'r rheoliadau a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Nid ydynt bob amser yn rhoi gwybod i AGC am yr holl newidiadau i'r lleoliad. Nid yw'r cyfarfodydd goruchwylio staff yn cael eu cynnal yn rheolaidd ac nid ydynt yn ystyrlon. Nid yw'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad bob amser yn sicrhau y caiff gwiriadau addasrwydd y staff eu cynnal cyn i'r staff ddechrau gweithio yn y gwasanaeth.

## Llesiant

Caiff dymuniadau ac anghenion y plant eu hystyried ar y cyfan, a chaiff y plant rai cyfleoedd i wneud dewisiadau a phenderfyniadau drostynt eu hunain. Er enghraifft, mae'r plant yn dewis eu ffedogau eu hunain cyn eistedd i ginio. Caiff diddordebau a barnau y plant eu cydnabod ar y cyfan, ac maent yn dechrau meithrin hoffter ac ymlyniad gyda'r plant a'r staff eraill. Mae'r rhan fwyaf o'r plant wedi setlo, ac mae rhai yn ceisio cysylltiad agosach a thawelwch meddwl gan yr oedolion. Gwnaeth rhai o'r plant a oedd yn setlo i mewn a rhai o'r plant eraill geisio cymorth ychwanegol gan y staff. Mae'r rhyngweithio rhwng y plant a'r oedolion yn gadarnhaol gan amlaf.

Mae llawer o'r plant yn cydweithredu, ac maent yn ymddiddori ar y cyfan. Mae'r plant yn mwynhau dewis rhesymol o gyfleoedd priodol dan do ac yn yr awyr agored. Maent hefyd yn ymlacio ac yn cael cyfnodau tawel. Caiff y plant ryddid i archwilio'r amgylchedd dan do a'r amgylchedd awyr agored yn ddiogel ac maent yn cychwyn eu chwarae eu hunain. Er enghraifft, caiff y plant gyfle i ddewis ble i chwarae a gwelsom a chlywsom y plant yn pwyntio ac yn gofyn am gael chwarae mewn ardaloedd penodol.

Mae llawer o'r plant yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau, sy'n arwain at ymdeimlad rhesymol o gyflawni ac yn hwyluso hunan-barch. Er enghraifft, mae'r plant yn hapus i gymryd rhan mewn sesiynau canu a chaneuon actol. Caiff y plant amrywiaeth o adnoddau digonol sy'n addas ar gyfer eu hoedran sy'n cynnig rhai cyfleoedd addas ac yn hyrwyddo eu datblygiad cyffredinol. Mae'r plant yn cael rhai cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth. Er enghraifft, maent yn symud o gwmpas ac yn dewis eu gweithgareddau yn yr ardal awyr agored. Fodd bynnag, mae rhai cyfleoedd i ddatblygu annibyniaeth yn cael eu colli. Er enghraifft, ni chaiff rhai o'r plant gyfle bob amser i fynd i ardal y toiledau yn yr ystafell cyn-ysgol yn annibynnol. Ni all y plant olchi a sychu eu dwylo'n annibynnol, am fod y sebon a'r tywelion papur yn cael eu storio allan o gyrraedd y plant. Yn ystod amser cinio, mae llawer o'r plant yn annibynnol o ran eu gallu i fwyta ac yfed ar eu pen eu hunain. Fodd bynnag, ni welsom y plant yn arllwys eu diodydd eu hunain yn annibynnol nac yn cael mynediad at ddŵr yfed yn hwylus.

## Gofal a Datblygiad

Mae llawer o'r staff yn datblygu eu dealltwriaeth, ac yn mynd ati i roi polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad ar waith er mwyn hyrwyddo diogelwch a llesiant personol. Mae nifer cyfyngedig o'r staff yn hyderus yn eu cyfrifoldebau i amddiffyn y plant ac yn dangos dealltwriaeth o bolisïau a gweithdrefnau diogelu'r lleoliad. Mae llawer o'r staff yn anghyson o ran eu hymatebion i senarios diogelu ac nid ydynt wedi derbyn proses sefydlu drylwyr sy'n cynnwys gweithdrefnau diogelu. Nid yw rhai aelodau o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant diogelu cyflawn. Mae polisi diogelu'r lleoliad yn unol â'r gofynion. Fodd bynnag, nid yw'r polisi yn nodi'r swyddogion diogelu dynodedig yn glir ac o ganlyniad, nid yw'r staff yn siŵr â phwy y byddent yn rhannu gwybodaeth. Mae hwn felly yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Mae llawer o'r staff yn ymatebol: maent yn gwrando ar safbwyntiau'r plant ac yn eu parchu. Mae'r rhyngweithio rhwng y staff a'r plant yn gadarnhaol ar y cyfan gan ddangos caredigrwydd. Er enghraifft, clywsom y staff yn cwestiynu'r plant drwy ofyn "*Who can you see? Does it feel nice? Is it soft?*" Roedd llawer o'r staff yn sensitif i anghenion eraill a llawer ohonynt yn gallu dangos esiampl o foesau da. Yn ystod amser cinio, roedd llawer o'r staff yn cefnogi anghenion a dewisiadau'r plant a oedd yn ymwneud â bwyta. Fodd bynnag, ni chaiff prydau amgen eu cynnig gan y staff pan fydd y plant yn dangos nad ydynt yn hoffi'r prydau. Ar ben hynny, nid oedd ansawdd y bwyd na faint a ddarperir yn foddhaol bob amser. Er enghraifft, mae'r prydau yn anghyson a nid ydynt bob amser yn dangos deiet iach a chytbwys. Mae hwn felly yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Ar y cyfan, mae'r staff yn ymwybodol o'r angen i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Fodd bynnag, dim ond rhai aelodau o'r staff sy'n rhoi arferion glanhau a hylendid priodol ar waith yn unol â pholisïau'r lleoliad. Nid yw'r staff yn sicrhau bod safonau hylendid yn bodloni'r safonau gofynnol yn ystod amser cinio ac yn ystod amser mynd i'r toiled a newid cewynnau. Er enghraifft, nid yw llawer o'r staff bob amser yn golchi eu dwylo cyn gweini bwyd i'r plant. Nifer fach o'r staff sydd wedi cwblhau hyfforddiant ar hylendid bwyd. Nid yw'r staff bob amser yn ymateb yn briodol i anghenion y plant. Er enghraifft, pan fyddant allan yn yr awyr agored mewn tywydd cynnes, nid yw'r staff i gyd yn sicrhau bod y plant yn gwisgo hetiau haf neu wedi cael eli haul. Yn ystod ein hymweliad ar ddiwrnod poeth, ni wnaeth y staff wneud yn siwr bod digon o ddŵr yfed ar gael yn hawdd i'r plant i gyd yn ystod eu hamser chwarae yn yr awyr agored. Mae'r materion hyn felly yn golygu bod maes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Mae llawer o'r staff yn canmol y plant, yn rhoi clod iddynt drwy ddweud *"clever girl, well done".* Mae bron pob aelod o'r staff yn dangos eu dealltwriaeth o roi strategaethau ymddygiad cadarnhaol ar waith. Er enghraifft, mae'r staff yn tawelu tensiynau pan fydd y plant yn cael anawsterau wrth rannu'r un bêl yn ystod sesiynau chwarae yn yr awyr agored. Mae'r staff yn sicrhau y caiff themâu eu dilyn fel rhan o'r cwricwlwm. Gwelsom dystiolaeth o

weithgareddau a llyfrau stori er mwyn cefnogi'r thema bresennol. Esboniodd y staff y caiff y gweithgareddau eu dogfennu ar ffurf ffotograffau a gaiff eu rhannu â'r rhieni ar yr ap. Fodd bynnag, nid yw'r staff yn defnyddio dogfennau cynllunio neu ddogfennau arsylwi yn rheolaidd i weld cynnydd unigol y plant ar gyfer eu camau datblygu nesaf.

## **Arweinyddiaeth** a Rheolaeth

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad ar y cyfan yn cydymffurfio â'r rheoliadau perthnasol a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Mae ganddynt wybodaeth ddigonol am eu cyfrifoldebau rheoleiddio ac weithiau maent yn adolygu eu polisïau i sicrhau bod y rhain yn cael eu rhoi ar waith yn ymarferol. Fodd bynnag, ni roddwyd gwybod i AGC am y newidiadau diweddar o ran staff: ychwanegu sawl aelod newydd o staff neu berson newydd â gofal yn y lleoliad. Mae hwn felly yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau y caiff cymarebau'r staff eu cynnal yn unol â'r rheoliadau. Fodd bynnag, ni wneir defnydd priodol o'r staff bob amser. Mae llawer o aelodau newydd o'r staff yn anghyfarwydd â threfniadau ac arferion y lleoliad. Daethom o hyd i newidiadau dyddiol i arweinwyr ystafelloedd a thimau staff. Mae hyn wedi arwain at arferion, a lefelau o wybodaeth a dealltwriaeth anghyson, sy'n cael effaith negyddol ar ganlyniadau'r plant. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi ymateb yn gyflym ac maent wedi cyflwyno rotas staffio newydd i sicrhau cysondeb o ran arweinwyr ystafelloedd a thimau staffio.

Nid oes gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad broses gadarn ar gyfer recriwtio staff, ac mae'r gwiriadau addasrwydd staff yn anghyflawn. Nid ydynt yn sicrhau bod y ddogfennaeth i gyd ar gael yn hwylus. Er enghraifft, nid oedd llawer o ffeiliau'r staff ar gael yn ystod ein hymweliad cyntaf. Er y caiff rhai o ffeiliau'r staff eu diweddaru yn ystod yr arolygiad, roedd angen ymdrin â rhai o'r dogfennau statudol o hyd. Felly, rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth ac mae'n rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r mater hwn.

Mae'r staff hirdymor wedi derbyn arfarniadau staff a chadwodd y bobl sy'n rhedeg y lleoliad dystiolaeth sylfaenol o gofnodion datblygu proffesiynol. Fodd bynnag, mae'r arferion presennol yn dangos nad yw'r staff yn cael cyfarfodydd goruchwylio rheolaidd ac mae hyn yn cael effaith ar anghenion hyfforddiant y staff. Mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 28 | Rhaid i'r darparwr sicrhau bod dau eirda ar gael ar gyfer pob aelod staff. | Newydd |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 22 | Rhaid i'r darparwr sicrhau bod y polisi diogelu yn cynnwys yr wybodaeth gywir mewn perthynas â Swyddogion Diogelu Dynodedig y lleoliad a sicrhau eu bod yn gallu rhoi'r polisi ar waith. | Newydd |
| 20 | Rhaid i'r darparwr sicrhau bod yr holl staff gofal yn dilyn gweithdrefnau hylendid cadarn a sicrhau eu bod yn hyrwyddo lles y plant perthnasol ac yn darparu'n briodol ar eu cyfer. | Newydd |
| 21 | Rhaid i'r darparwr sicrhau bod y bwyd sy'n cael ei ddarparu yn cwrdd ag anghenion y plant. | Newydd |
| 29 | Rhaid i'r darparwr sicrhau bod y staff yn cael cyfarfodydd goruchwylio a gwerthuso yn rheolaidd a chadw tystiolaeth sylfaenol am ddatblygiad proffesiynol. | Newydd |
| 31 | Rhaid i'r darparwr sicrhau eu bod yn rhoi gwybod i AGC am yr holl newidiadau staff. | Newydd |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 8 - Maeth a lles | Sicrhau bod y plant yn cael cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth yn ystod amser bwyd, byrbryd a mynd i'r toiled. |
| Safon 7 - Cyfleoedd i chwarae a dysgu | Sicrhau y caiff yr hyn mae'r plant yn ei wneud ei arsylwi a'i gofnodi i helpu i gynllunio ar gyfer y camau nesaf, yn unol â diddordebau, dysgu a datblygiad y plant. |
| Safon 13 (Gofal Dydd) - Person Addas | Sicrhau bod pob aelod o'r staff yn derbyn hyfforddiant sefydlu sy'n cynnwys polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad, gan gynnwys polisïau diogelu, iechyd, bwyd ac yfed a newid cewynnau, a'u dilyn yn rheolaidd. |

Pan fyddwn o'r farn y byddai hynny'n ddefnyddiol, mae'n bosibl y byddwn yn gwneud argymhellion arferion gorau. Nod yr argymhellion hyn yw annog lleoliadau sy'n gwneud yn dda i ddod hyd yn oed yn well wrth helpu plant i ffynnu.

| **Arferion Gorau** |
|---|
| Argymhelliad/argymhellion |
| Sicrhau y caiff yr holl bolisïau a gweithdrefnau eu diweddaru mewn modd amserol. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 08/08/2023